# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 15/06/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Gwasanaethau Iechyd

**C11 Peter Black:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effeithlonrwydd y gwasanaeth iechyd? OAQ(3)2943(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae gan sefydliadau'r GIG gyllidebau sylweddol i gyflawni eu gwasanaethau ac mae'n rhaid iddynt weithredu o fewn iddynt. Y sefydliadau unigol sydd i sicrhau bod arian yn cael ei wario'n effeithlon ac yn effeithiol. Mae rhaglen effeithiolrwydd a chynhyrchiant cenedlaethol hefyd yn anelu at sicrhau bod sefydliadau yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau, yn lleihau gwastraff ac yn gwella cynhyrchiant.

### Newid yn yr Hinsawdd

**C12 Christine Chapman:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yng Nghymru? OAQ(3)2938(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi llwyr ymrwymo i fynd i'r afael ag achosion a chanlyniadau y newid yn yr hinsawdd. Bu ymgynghoriadau strategaeth newid yn yr hinsawdd 2009 yn pennu'r camau sydd eu hangen i leihau allyriadau, cael pobl i newid ymddygiad a helpu inni addasu. Bydd y strategaeth derfynol a chynlluniau cyflawni cysylltiedig yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach eleni.

### Prif Flaenoriaethau

**C13 Alun Davies:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei brif flaenoriaethau? OAQ(3)2947(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae fy mlaenoriaethau ar hyn o bryd yr un rhai â'm blaenoriaethau ar gyfer gweddill y Cynulliad hwn: cyflawni ein hymrwymiadau yn 'Cymru'n Un' a'n rhaglen ddeddfwriaethol; ennill mwy o bwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol; a gweithio drwy benderfyniadau gwariant anodd, tra'n parhau i osod sylfeini ar gyfer adferiad economaidd cynaliadwy.

### Ad-drefnu Ysgolion

**C14 Chris Franks:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ad-drefnu ysgolion yng Nghanol De Cymru? OAQ(3)2940(FM)

**Y Prif Weinidog:** Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw cynllunio a darparu lleoedd mewn ysgolion. Yr wyf yn deall bod tri awdurdod lleol yng Nghanol De Cymru wrthi'n adolygu eu darpariaeth bresennol i ysgolion ac yn cyflwyno cynigion am newid lle y maent yn teimlo eu bod yn briodol.

### Datblygu'r Gweithlu Cartrefi Gofal Preswyl

**C15 Bethan Jenkins:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddatblygu'r gweithlu cartrefi gofal preswyl? OAQ(3)2931(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Dirprwy Weinidog wedi comisiynu grŵp gorchwyl i ystyried y gwaith o ddatblygu'r gweithlu gwasanaethau cymdeithasol. Bydd y grŵp yn adrodd yn ôl ym mis Tachwedd. Mae yn datblygu cynlluniau i'w gwneud yn ofynnol i reolwyr cartrefi gofal gofrestru erbyn mis Hydref, ac yr ydym ar hyn o bryd yn buddsoddi £8.67 miliwn bob blwyddyn i helpu i hyfforddi'r gweithlu gwasanaethau cymdeithasol.